

# Dyfarniad Rheoleiddiol

Mai 2024

## Grŵp Cynefin Cyf – L029

Mae dyfarniad rheoleiddiol Grŵp Cynefin wedi'i ddiwygio. Darparwyd sicrwydd digonol bod y risgiau a'r pryderon mwyaf arwyddocaol a nodwyd adeg yr asesiad rheoleiddiol blaenorol wedi cael sylw. Mae'r Grŵp yn parhau i weithredu gwelliannau ac argymhellion pellach a nodwyd drwy amrywiol adolygiadau annibynnol a'n hasesiad rheoleiddiol.

Mae'r Gymdeithas yn bodloni ein profion hyfywedd ariannol. Bydd mwy o oruchwyliaeth reoleiddiol yn parhau tra bod y Gymdeithas yn gweithredu strategaeth trysorlys a ddiweddarwyd i gefnogi buddsoddiad parhaus mewn stoc tai a gwasanaethau tenantiaid.

Mae Grŵp Cynefin wedi rhoi ymgymeriad gwirfoddol o dan adran 6A o Ddeddf Tai 1996, sy'n sicrhau y bydd y gwelliannau a nodwyd yn cael eu cyflawni.

## Dyfarniad

Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid		
Cydymffurfio	Melyn	Mae'r gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddio yn rhannol ac mae ganddi'r potensial i allu cyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol gyda mwy o oruchwyliaeth reoleiddiol.
Hyfywedd ariannol		
Cydymffurfio	Melyn	Mae'r gymdeithas yn cyrraedd y safonau rheoleiddio yn rhannol ac mae ganddi'r potensial i allu cyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol gyda mwy o oruchwyliaeth reoleiddiol.

**Noder** – Adroddiad eithriadau yw hwn.

Os oes gennym unrhyw bryderon rheoleiddiol, bydd y safon reoleiddio ynghyd â'r gwelliannau sy'n ofynnol yn cael eu rhestru. Os nad oes safonau rheoleiddio wedi'u rhestru, nid oes unrhyw bryderon rheoleiddio sylweddol ar hyn o bryd.

Mae/Bydd Grŵp Cynefin wedi/yn cyhoeddi ei hunanwerthusiad lle gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth gan gynnwys y datganiad cydymffurfiaeth gyda'r safonau rheoleiddio a'r cynllun gwelliant parhaus.

Yn ogystal â'r oruchwyliaeth arferol, bydd y Rheoleiddiwr am gael sicrwydd rheoleiddiol ychwanegol am y materion a ganlyn:

### SR1

- Mae ganddo strategaeth sy'n adlewyrchu ei weledigaeth, ei ddiwylliant a'i

werthoedd ac sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ddiben craidd fel landlord Cymdeithasol.

- Mae'n cydymffurfio â'i ddogfennau llywodraethu ei hun ac yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu priodol.
- Mae'n pennu ymrwymïadau mesuradwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob un o'i feysydd busnes mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys materion gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael â throedd casineb) ac yn adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'n gweithio gyda nhw ac ynddynt.
- Mae ganddo Fwrdd amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n gweithio gyda nhw ac ynddynt, ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn effeithiol.
- Mae'n gwneud penderfyniadau rhesymegol yn seiliedig ar wybodaeth glir o ansawdd da sy'n cynnwys asesu risg a, lle y bo'n briodol, barn tenantiaid.
- Mae'n galluogi tenantiaid i ddylanwadu ar benderfyniadau strategol.

## SR2

- Mae ganddo fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaethau mewnol a sicrwydd sy'n ei alluogi i nodi a rheoli risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg a allai ei atal rhag cyflawni ei strategaeth neu gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol.

## SR3

- Mae'n sicrhau bod tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn nodi ac yn cywiro'n brydlon unrhyw achosion o danberfformio neu ddiffyg cydymffurfio â materion iechyd a diogelwch landlordiaid.
- Mae'n darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion amrywiol tenantiaid.
- Mae'n cyflawni ac yn cynnal lefelau uchel o foddhad â gwasanaethau ymhlith tenantiaid.
- Mae'n sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad y landlord ar gael i denantiaid.

## SR4

- Mae'n galluogi tenantiaid i ddeall dull y sefydliad o gynnwys tenantiaid, sut y gallant gymryd rhan a sut y bydd y sefydliad yn gwrando ar adborth gan denantiaid ac yn gweithredu arno, ac yn dysgu o gwynion.

## SR6

- Mae'n pennu ei ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian, gan sicrhau bod y dull yn ymwneud â'i ddiben cymdeithasol, ac yn gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn unol ag ef.
- Gall ddangos i randdeiliaid, gan gynnwys tenantiaid, ei fod yn sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni ei strategaeth a darparu ei wasanaethau.

## SR7

- Mae'n ariannol hyfyw yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy, ac mae'n sicrhau bod digon o gyllid a hylifedd i gefnogi hyn.

## SR8

- Mae'n gwneud y defnydd gorau o asedau i gyflawni ei ddiben cymdeithasol a bodloni amcanion y sefydliad.

**Grŵp Cynefin : Proffil**

<b>Nifer yr unedau</b>	<b>4,233</b>
<b>Trosiant blynyddol</b>	<b>£33.4 miliwn</b>
<b>Cymhareb gerio</b>	<b>33%</b>
<b>Sicrwydd llog</b>	<b>119%</b>
<b>Math o landlord cymdeithasol cofrestrdig</b>	<b>Traddodiadol</b>
<b>Lleoliad</b>	<b>Gogledd Cymru</b>

*Mae'r niferoedd uchod fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2023, sef dyddiad y datganiadau ariannol diweddaraf a gyhoeddwyd.*

Tîm Rheoleiddio Tai  
Llywodraeth Cymru  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Rhyd-y-car  
CF48 1UZ  
e-bost: housingregulation@llyw.cymru

ISBN Digidol 978-1-83625-006-7  
Hawlfraint y Goron 2024